Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 450 TACHWEDD 2022 | AM DDIM

## MAE HANES YN Y TIR!

Cafodd yr hanesydd Dr Elin Jones groeso brwd gan Sefydliad Brenhinol De Cymru, sef Cyfeillion Amgueddfa Abertawe, yn ddiweddar wrth iddi draddodi darlith gyntaf tymor yr hydref.
Neges Dr Elin oedd bod hanes yn fyw, ac i'w gweld ymhobman o'n cwmpas - mewn adeiladau, cwrs heolydd a llwybrau ac enwau lleoedd. Ac fe roddodd ddarlun bywiog o'i man genedigol, Ystrad Mynach yng Nghwm Rhymni i danlinellu hynny.

Mae copi o'i llyfr newydd 'Hanes yn y Tir' a'i fersiwn Saesneg 'History Grounded' wedi mynd i bob ysgol yng Nghymru yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru. Mae modd prynu'r llyfr yn Siop Tŷ Tawe.




Yn y llun, cyflwynir Dr Elin Jones (ar y chwith) gan Is-gadeirydd Cyfeillion Amgueddfa Abertawe, Elizabeth Belcham.

- Dafydd Williams

## ARDDANGOSFA AML-LEOLIAD

<u>Coleg Celf Abertawe ac orielau lleol yn lansio arddangosfa aml-leoliad gydweithredol i ddathlu creadigedd yn y ddinas</u>

Mae arddangosfa gelf aml-leoliad a chydweithrediad rhwng Coleg Celf Abertawe Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), Oriel Glynn Vivian, Artistiaid GS, Oriel Mission ac Oriel Elysium wedi cael ei lansio ar draws canol dinas Abertawe.

Mae'r arddangosfa arbennig hon ar draws lleoliadau gwahanol yn dod â gorffennol a phresennol cymuned greadigol Abertawe ynghyd, gan gydnabod y cydweithrediadau pwysig rhwng sefydliadau celf lleol sydd wedi digwydd dros y degawdau a'r canrifoedd diwethaf.

Yn cynnwys cyn-fyfyrwyr a myfyrwyr presennol PCYDDS, ynghyd ag artistiaid lleol, yn ogystal â deunydd archifau a chyfweliadau, mae'r digwyddiad yn dathlu blwyddyn ddaucanmlynyddol PCYDDS o Addysg Uwch yng Nghymru a'r rôl annatod y mae addysg gelf gan Goleg Celf Abertawe wedi'i chwarae o ran cymuned ddiwylliannol a hunaniaeth y ddinas.

-Heini Gruffudd

## WALDOTHON

Daeth Robert Rhys yn ôl i Adran y Gymraeg ym mhrifysgol Abertawe ar 1 Hydref i gynnal Waldothon gyda'r adran. Bu'n fore hynod ddiddorol ac yn brofiad arbennig darllen detholiad o gerddi amrywiol gan Waldo Williams yng nghwmni arbenigwr yn y maes.

-Heini Gruffudd



# LLINELL BARN

*Eich barn ar y materion sydd o bwys i chi...*

Barn...

## CERYDD I ABERTAWE

-HEINI GRUFFUDD

Ar 27 Gorffennaf cyhoeddodd Tribiwnlys y Gymraeg bod Cyngor Abertawe wedi torri safonau'r Gymraeg pan gaeon nhw Ysgol Felindre, a'i rhoi ar y farchnad.
Methodd y Cyngor ag ystyried yr effaith y byddai gwaredu adeilad ysgol Felindre yn ei chael ar y Gymraeg.

Dyma'r ail dro i'r Comisiynydd ganfod fod y Cyngor wedi torri'r safonau mewn perthynas ag Ysgol Felindre, y tro cyntaf pan gaeon nhw'r ysgol.

Yn ei hanerchiad i'r Tribiwnlys, meddai Angharad Dafis, "Dyw Cyngor Abertawe erioed wedi cofleidio'r iaith Gymraeg ac maent yn ystyried rhannau gwledig Cymraeg eu hiaith y sir yn fygythiad iddynt."

Caewyd Ysgol Felindre ym mis Awst 2019. 12 o blant oedd yn yr ysgol erbyn hynny, a 5 yn unig o ddalgylch yr ysgol.

Roedd RhAG wedi pwyso ar y sir ar hyd y blynyddoedd i ddatblygu'r ysgol. Y tro diwethaf oedd cyfarfod ar 22 Ionawr 2019. Bu ymgynghoriad statudol i gau'r ysgol ym mis Chwefror 2019. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, meddai RhAG bod angen cadw'r ysgol ar agor gan fod datblygiadau tai ar y gweill yn yr ardal o gwmpas yr M4.

Dadleuodd RhAG eisoes yn 2016 bod angen cadw'r ysgol ar agor yn sgil y datblygiadau tai hyn, oedd yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol.

I gadw'r ysgol ar agor, argymhellodd RhAG bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tri phwrpas i gyfoethogi addysg Gymraeg, sef fel darpariaeth gyn-ysgol, fel uned gyfeirio ac fel canolfan hwyrddyfodiaid i addysg Gymraeg.

Gwrthododd y Cyngor y dadleuon hyn a mynd gam ymhellach, a chau'r uned hwyrddyfodiaid oedd gan y Sir.



Lluniau: Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre (chwith) ac Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr (dde).



Barn...

## BUARTH BRYN-Y-MÔR YN LLAWER RHY FACH I GAEL DOSBARTH DROS DRO ARALL

-HEINI GRUFFUDD

Mae buarth ysgol Gymraeg Bryn-y-môr yn llawer rhy fach i gael dosbarth dros dro arall yno. Dyna honiad Llywodraethwyr yr ysgol.

Mae'r Sir wedi gorfod wynebu twf yn niferoedd yr ysgol, ac wedi cynnig gosod dosbarth dros dro ar yr iard, ar gost o £1 filiwn, mae'n debyg.

Yn wreiddiol, bu'r Sir yn trafod rhoi llawr ychwanegol i'r prif adeilad, ond sylweddolodd y byddai hyn yn anymarferol.

Y broblem yw mai dim ond tua 550 metr sgwâr yw maint yr iard, Byddai hyn yn cael ei leihau i tua 450 metr sgwâr. Mae tua 300 o blant ar restrau'r ysgol, yn cyfateb i 251 o blant amser llawn yn yr ysgol ym mis Chwefror a 37 wedi cychwyn ym mis Medi.
Meddai Saran Thomas, Cadeirydd y Corff Llywodraethu, "Mae hen adeilad dros dro ar yr iard gyda lle i ddau ddosbarth, a bydd adeilad dros dro arall yn lleihau'r iard sydd eisoes yn fach iawn..Mae nifer y disgyblion yn ein dosbarthiadau'n fawr, yn aml dros 30"

"Does dim modd estyn yr ardal allanol ac mae ein hysgol eisoes yn orlawn. Mae'n dipyn o her i reoli cymaint o blant ar iard mor fach, ac mae plant yn aml yn cwympo a damweiniau'n digwydd."
"Dydyn ni ddim yn credu bod gwario £1 miliwn yn ateb da i'r pwysau ar Bryn-y-môr. Rydyn ni am i'r Sir gael safle arall i'r ysgol neu sefydlu ysgol Gymraeg arall yn ein dalgylch."

Mae'r Llywodraethwyr wedi cysylltu â'r Sir i fynegi eu barn.

Meddai RhAG Abertawe bod maint yr iard yn llawer rhy fach. Dim ond 27% o safle'r ysgol sydd ar gael i'r iard, a byddai hyn yn cael ei leihau i 20%. Argymhelliad y Llywodraeth yw dylai iard amrywio rhwng 80% a 90% o safle ysgol.

Mae RhAG yn awgrymu bod y Sir yn sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn nalgylch yr ysgol, neu'n dod o hyd i safle ar gyfer plant iau'r ysgol. Mae RhAG wedi gofyn i'r Sir am gyfarfod i drafod hyn.

## DYSGWYR AR GŴYR

-ROB EVANS

Os bydd pethau'n parhau i fynd fel hyn bydd pawb ar Gŵyr yn siarad Cymraeg! Mae grŵp o ddysgwyr wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol yng nghaffi'r Tri Chlogwyn am rai blynyddoedd erbyn hyn ond yn ddiweddar ar ochr ogleddol y penrhyn mae grŵp arall wedi ei sefydlu. Maen nhw'n cyfarfod yn y caffi yng Nghwm Ivy bob bore dydd Iau am 11.00 o dan yr enw 'Shw mae dydd Iau'. Da ynte!

A pheidiwch â meddwl mai rhyw hercian siarad sydd yn mynd ymlaen, o na, maen nhw'n clebran. Dw i'n mynd yna i roi cymorth i'r ddau grŵp a phob hyn a hyn dw i'n stopio i wrando arnyn nhw ac mae fy ysbryd yn codi! Dyma bobl sydd ddim wedi cael eu magu yn yr iaith Gymraeg, maen nhw wedi dewis dysgu, wedi dod trwy'r broses a rŵan maen nhw wrth eu boddau yn siarad yr iaith.

Mae'r ddau le yn boblogaidd iawn efo ymwelwyr am hanner y flwyddyn a'r ymwelwyr yn sylwi ar yr iaith anghyfarwydd maen nhw'n clywed. "Pa iaith dach chi'n siarad?" maen nhw'n gofyn a phan dyn ni'n esbonio mai'r Gymraeg yw hi maen nhw'n llawn diddordeb. Go brin maen nhw wedi clywed yr iaith o'n blaen.

Y mwyaf o bobl sydd yn clywed yr iaith yn cael ei siarad go iawn y cryfaf yw'r iaith a phan mae gymaint o bwysau ar ein cymunedau mae hynny'n beth da iawn.

Ac os oes dau grŵp ym mro Gŵyr dyle fod llawer mwy yn Abertawe ei hun, felly beth amdani? Mae grwpiau Gŵyr yn rhoi cyfle i'r rhai sydd ar y gris gyntaf i ymarfer yr iaith maen nhw wedi dysgu a hynny mewn amgylchfyd naturiol. Maen nhw'n dod i sylweddoli bod nhw yn gallu sgwrsio, ac mae holl batrymau cymhleth yr iaith yn eu pennau nhw wedi'r cwbl. Bob wythnos mae'r hyder yn codi ac yn bendant nid ydyn nhw'n mynd i roi'r gorau i'r ymdrech rŵan.

A ni, y Cymry Cymraeg, dyn ni angen pob un ohonyn nhw er mwyn cryfhau ein cymdeithasau. Ond er mwyn i ni wybod pwy sy'n dysgu rhaid i'r dysgwyr cyfarfod mewn lle agored fel caffi. Wedyn byddech chi'n dod ar eu traws nhw, eisteddwch efo nhw, gofynnwch am eu hanes ac ymunwch yn eu sgyrsiau. Gwnewch ffrindiau efo nhw a helpwch nhw i ddarganfod y drws i'n cymdeithas.

Yr hen filiwn yna? Heb ein mewnbwn ni does dim gobaith i hynny ddigwydd.

Mae miloedd yn cofrestru i ddysgu Cymraeg bob blwyddyn, helpwch nhw i ddarganfod hyder a bydd llawer mwy ohonyn nhw yn dal ati tan y diwedd.

Ac os oes rhywun am ddechrau grŵp ac eisiau cyngor cysylltwch â fi - bobwennol@ntlworld.com byddaf yn hapus iawn i'ch helpu.



Shw mae dydd Iau



Caffi'r Tri Chlogwyn

## LANSIAD LLYFR LLWYDDIANNUS!

Lansiwyd llyfr newydd Heini Gruffudd, 'My Way to Welsh', yng Nghaffi Bore Sadwrn Tŷ Tawe ar fore'r 2 o Hydref. Trefnwyd y bore gan un o swyddogion datblygu Menter Iaith Abertawe, Janet Francis-Jones a daeth criw go dda draw i Dŷ Tawe i glywed Heini yn trafod y cyhoeddiad ac i'w holi am ei lyfr newydd.







Llun uchod: Robat Gruffudd, Heini Gruffudd a Janet Francis-Jones

## NOSON WOBRWYO DYSGU CYMRAEG ARDAL BAE ABERTAWE

Daeth Sioned Williams AS/MS i Dŷ Tawe ddechrau Hydref i gyflwyno tystysgrifau i ddysgwyr. Roedd y dysgwyr wedi llwyddo yn arholiadau Cymraeg CBAC eleni. Cafodd y dysgwyr eu swyno gan ganu Bronwen Lewis.







Llun (chwith): Sioned Williams AS gyda rhai o'r dysgwyr.

Llun (dde): Bronwen Lewis




## CYMRU MEWN PENWYTHNOS!

Mae criw o'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch newydd ddychwelyd o daith 'Cymru Mewn Penwythnos'! Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol oedd gyntaf, yna sesiwn gyda'r Athro Mererid Hopwood ym Mhrifysgol Aberystwyth. Treuliwyd y nos Wener yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn a mwynhau 'take away'o'r Bala. Fore Sadwrn, galwon ni heibio Llyn Tryweryn cyn ymweld â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn a'r gofeb iddo yn Nhrawsfynydd.



Ymlaen â ni wedyn i Flaenau Ffestiniog i weld ardal Gwyn Thomas cyn mwynhau cinio ym Mhorthmadog. Rhyd-ddu oedd y lleoliad nesaf er mwyn gweld cartref T.H.Parry Williams, cyn cael cyfle i hamddena a mwynhau clywed y Gymraeg ar strydoedd Caernarfon. Nôl â ni wedyn i wersyll Glan-llyn ar y nos Sadwrn a chael pryd o fwyd blasus ym mwyty'r Eagles. Fore Sul, galw yn Neuadd Pantycelyn yn Aberystwyth i gwrdd â Caryl Lewis ac edmygu'r Neuadd ar ei newydd wedd! Wedi cinio, cawsom sgwrs ar y Cei yn Aberteifi gyda Ceri Wyn Jones ac yna galw i weld cofeb Waldo ym Mynachlog-Ddu cyn ymlwybro nôl i'r ysgol wedi blino'n lân ar ôl gweld Cymru mewn penwythnos!

-Meinir Jones, Pennaeth yr Adran Gymraeg

Lluniau uchod a chwith: disgyblion yn mwynhau ar y daith!

## DATHLIADAU DIWRNOD SHWMAE!

Dathlwyd Diwrnod Shwmae gyda llu o weithgareddau yn yr ysgol. Un o'r gweithgareddau hynny oedd sesiwn ar ôl ysgol o gemau iaith i ddysgu ychydig o Gymraeg i'n rhieni a chymuned yr ysgol. Paratôdd criw o ddisgyblion bl.7-12 gemau amrywiol e.e. bingo bwyd, gêm 'dyfalwch pwy', gêm y corff a dominos pynciau'r ysgol. Cafwyd mwy o hwyl a sbri ar ddiwedd y sesiwn gyda chwis kahoot. Diolch hefyd i Tŷ Tawe am gynnal stondin yn llawn nwyddau i ddysgu Cymraeg.

-Meinir Jones, Pennaeth yr Adran Gymraeg






## SIOE THEATR



Diolch i Gwmni Theatr 'Mewn Cymeriad' am berfformio drama wych i bawb o fl.9 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe bore yma. Enw'r ddrama oedd 'Geirie' gan Manon Steffan Ros. Roedd y ddrama yn delio gyda sefyllfa mewn ysgol lle mae disgybl yn tanseilio disgybl arall sy'n wreiddiol o wlad Pwyl. Mae'r drosedd casineb yn ymddangos yn un bach a di-bwys, ond mae'r ddrama yn edrych ar effaith y geiriau ar wahanol bobl, gan gynnwys y drwgweithredwr. Yn sicr, roedd y disgyblion wedi elwa'n fawr o weld y ddrama

-Meinir Jones, Pennaeth yr Adran Gymraeg

## DATHLU DIWRNOD T LLEW JONES




Plant Cyfnod Sylfaen Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen yn eu gwisgoedd lliwiau Hydrefol yn dathlu Diwrnod T Llew Jones wrth wrando ar ei gerdd adnabyddus "Dawns y Dail".
-Eleri Wyn Mackey


## TAITH I FFERM PWMPENNI



Cafodd plant y Derbyn yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen brofiad gwych yn ymweld â Fferm Pwmpenni Plas Pumpkins heddiw ! Dysgodd y plant am waith y ffarmwr a bywyd y gwartheg yno â dysgu ble mae'r cig a'r llaeth yn mynd. Wnaethant gwrdd â bwydo afalau i Lulu Belle y ceffyl a chasglu pwmpenni eu hun yn barod ar gyfer Calan Gaeaf.
-Eleri Wyn Mackey

## SESIWN CODI CANU

Ymunwch â Chôr Tŷ Tawe ar y 23ain o Dachwedd am noson o ganu cymeithasol! Trefnwyd y digwyddiad gan Fenter Iaith Abertawe fel rhan o'u dathliadau ar gyfer Cwpan y Byd.
Dewch draw i Dŷ Tawe am noson hwyliog yng nghwmni'r côr. Drysau'n agor am 7pm a bydd y bar ar agor!














## NWYDDAU CWPAN Y BYD AR GAEL YN SIOP TŶ TAWE

Byddwch yn barod am Gwpan y Byd gyda rhain!! Pob un ar gael yn y siop NAWR! Galwch mewn Dydd Mawrth - Dydd Gwener rhwng 10yb - 5yh a bore Sadwrn 10yb - 2yp
Croeso mawr i bawb! Neu ewch i'n gwefan - www.sioptytawe.co.uk




# SIOP TŶ TAWE

9 Stryd Christina SA1 4EW
(oddi ar Stryd y Brenin)

## Llyfrau, cardiau a nwyddau Cymraeg & Gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg lleol

- Llyfrau Cymraeg i bob oedran
- Cardiau i bob achlysur
- Anrhegion
- Calendrau
- Llyfrau ac adnoddau i ddysgwyr












01792 456856

siop@sioptytawe.co.uk

Siop Tŷ Tawe (@ysioptytawe)

SIOP TŶ TAWE - AM BOPETH CYMRAEG

DEWCH DRAW I BORI HEDDIW CROESO MAWR I CHI GYD!



## GWLEDD O GERDDORIAETH YN NHŶ TAWE

Cafwyd sawl noswaith o gerddoriaeth ffantastig yn Nhŷ Tawe dros y mis diwethaf gyda gig gan fandiau The Night School a Breichiau Hir, noson werinol gyda sioe Gafael Tir a noson arbennig gyda Derw a Bryn Fôn.



Llun uchod (top): Bryn Fôn yn Nhŷ Tawe., Stay Focused Photography
Llun uchod: The Night School yn Nhŷ Tawe
Lluniau dde: Dathliadau diwrnod Shwmae yn ysgolion Cefnhengoed a Bryn Tawe

## GEMAU CYMRU YN FYW YN NHŶ TAWE

Bydd Tŷ Tawe yn dangos pob gêm FA Wales yn fyw ystod Cwpan y Byd!
21.11 = UDA (19:00)
25.11 = Iran (10:00)
29.11 = Lloegr (19:00)





## DATHLU DIWRNOD SHWMAE


Amser gwych yn dathlu Diwrnod Shwmae 2022 gyda sesiwn gemau i ddisgyblion a rhieni yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe a chwisiau draw yn Ysgol Gyfun Cefnhengoed!







Roedd Manon o'r clwb cerddoriaeth wedi mwynhau cwrdd ag Adwaith cyn eu set anhygoel yn The Bunkhouse Swansea neithiwr!
Ymuna â'r cylch nesaf o'r Clwb Cerddoriaeth sy'n dechrau ar ôl hanner tymor! Dere i ddysgu sgiliau fel recordio, ysgrifennu caneuon, a llawer mwy!





Cofrestru:http://bit.ly/archebuiac
Gwybodaeth bellach: dafydd@menterabertawe.org

# RHAGLEN LAWN GIGS TŶ TAWE
## TACHWEDD-RHAGFYR 2022


6.11 – Gŵyl Ymylol Abertawe (Tŷ Tawe)
18.11 – Burum (Tŷ Tawe)
24.11 – NAWR: Ffrancon + Sachasom (Tŷ Tawe)
26.11 - Alffa (Elysium Gallery)
3.12 – HMS Morris + Ynys (Bunkhouse)
8.12 – Gareth Bonello + Lowri Evans (Tŷ Tawe)


Tocynnau: www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe











Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Rhagfyr erbyn Tachwedd 28ain trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government